# CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU ADRODDIAD CYNNYDD

CHWEFROR 2021









# TABL CYNNWYS

TABL CYNNWYS ........ 2

RHAGAIR ........ 3

1 CYFLWYNIAD ........ 4

2 CEFNDIR ........ 4

3 CRYNODEB O'R GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL A GYFLAWNWYD ........ 6

Ionawr - Mawrth 2020 ........ 6

Ebrill - Mehefin 2020 ........ 7

Gorffennaf - Medi 2020 ........ 7

Hydref - Rhagfyr 2020 ........ 8

Ionawr/Chwefror 2021 ........ 8

4 BLAENORIAETHAU A'R GWAITH SYDD AR Y GWEILL ........ 11

5 MAP TRYWYDD AR GYFER DATBLYGU A CHYFLAWNI ACHOSION BUSNES Y PROSIECTAU ........ 12

6 PRIF RISGIAU A MATERION ........ 13

7 ADFER AR ÔL COVID-19 ........ 13

8 CASGLIADAU ........ 14

9 ATODIADAU ........ 15

## RHAGAIR

Mae'r **Cynllun Twf** wedi'i ddatblygu drwy gydweithio agos ac ymrwymiad gan bartneriaid ar draws yr holl sectorau yn cynnwys Llywodraethau'r DU a Chymru, i gyflawni buddsoddiad a newid cadarnhaol a hirhoedlog a fydd yn galluogi twf economaidd a chyflogaeth yn yr hir-dymor.

Mae'r cynllun twf yn gyfle unigryw i fuddsoddi yn ein dyfodol gyda'n partneriaid ac mae'n alluogwr allweddol i adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a chynhwysol i ni i gyd yn y Gogledd.

Byddwn yn **flaengar** gyda'n buddsoddiadau - yn adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd, meithrin arloesedd a bod yn gystadleuol yn y marchnadoedd yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym ganolbwyntiau ymchwil ac arloesedd sydd wedi'u hen sefydlu eisoes, sy'n ein helpu ni i wthio'r ffiniau o fewn gweithgynhyrchu gwerth uchel. Bydd buddsoddiad pellach yn gwella ein henw da ac yn galluogi twf yn y diwydiant pwysig hwn.

Byddwn yn gwneud y Gogledd yn lle mwy addas i fuddsoddi ynddo gan fynd i'r afael â methiant marchnad hir-tymor sydd wedi bod yn rhwystr i fuddsoddiad masnachol. Datgloi'r potensial ar gyfer swyddi medrus, fel y gall pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol ffynnu. Byddwn yn mynd i'r afael â phrinder tir ac eiddo addas er mwyn tyfu busnesau, gan ddwyn ymlaen safleoedd cyflogaeth a thai i fodloni'r angen.

Mae bod yn **gysylltiedig** fel rhanbarth yn un o'n cryfderau. Mae ein partneriaeth ar draws y chwe awdurdod lleol, y prifysgolion, y colegau a'r sector preifat wedi'i hen sefydlu ac yn cryfhau o hyd. Rydym yn gyrru newid sylweddol mewn cysylltedd drwy gyfarch yr ardaloedd hynny sydd angen cysylltiadau band eang cyflymach a mwy dibynadwy fwyaf a gwneud y mwyaf o botensial mynediad i 5G ac arloesedd newydd. Rydym yn datblygu perthnasau ar draws ein ffiniau, oherwydd ein bod yn gwybod y gallwn fod yn gryfach drwy weithio gyda'n gilydd.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein henw da fel rhanbarth cydlynus; rhoi lifer ar ein partneriaethau i hyrwyddo twf yn yr economi sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol ac y gellir ei ymestyn. Mae ein buddsoddiad mewn prosiectau ynni carbon isel yn galluogi i ni gyfrannu'n uniongyrchol i'r argyfwng newid hinsawdd, gan helpu i wneud y Gogledd yn amgylchedd glanach, gwyrddach, ond hefyd gan leoli ein hunain fel un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU o fewn y sector ynni carbon isel. Heb anghofio ein heconomïau gwerthfawr o fewn amaeth a thwristiaeth, lle byddwn yn canolbwyntio ar alluogi ac annog arallgyfeirio i wella dyfodol hir-dymor y diwydiannau allweddol hyn, gan sicrhau bod ganddynt y cyfle i ddatblygu'n gynaliadwy a ffynnu.

Byddwn yn buddsoddi mewn ffordd sy'n hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac yn adeiladu cyfoeth yn ein cymunedau. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein rhwymedigaeth i gyflawni'r Cynllun Twf mewn ffordd sy'n gwella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Drwy fuddsoddi yn awr, rydym yn adeiladu ein **gwytnwch** ar gyfer y dyfodol.

Mae'n fraint i ni arwain y buddsoddiad pwysig hwn yn ein cartref a'n rhanbarth, Gogledd Cymru.



**Dyfrig Siencyn,**
Cadeirydd | Chair,
Bwrdd Uchelgais Economiaidd Gogledd Cymru |
North Wales Economic Ambition Board



**Mark Pritchard,**
Is-gadeirydd | Vice Chair,
Bwrdd Uchelgais Economiaidd Gogledd Cymru |
North Wales Economic Ambition Board



**Alwen Williams,**
Cyfarwyddwr Rhaglen | Programme Director,
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
North Wales Economic Ambition Board

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi trosolwg o'r gweithgaredd allweddol ers i'r Bwrdd Uchelgais adrodd ddiwethaf i'r Pwyllgor Economi, Sgiliau a Seilwaith ar 15 Ionawr 2020. Mae'r adroddiad yn ymdrin â:

- Cefndir
- Crynodeb o’r gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd
- Blaenoriaethau a'r gwaith sydd ar y gweill
- Mam trywydd ar gyfer datblygu a chyflawni achosion busnes y prosiectau.
- Prif risgiau a materion
- COVID-19 ac adfer yr economi
- Casgliadau
- Atodiadau

# 2 CEFNDIR

2.1 Nod Cynllun Twf Gogledd Cymru, a lofnodwyd ym mis Rhagfyr 2020, yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Ein dulliau gweithredu yw hyrwyddo twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.2 Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £240miliwn i Gynllun Twf Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Twf yn ceisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m o'r Cynllun Twf), i greu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.0 - £2.4 biliwn mewn GVA ychwanegol net.

2.3 **Mae cefnogi sectorau gwerth uchel ac ymdrin â'r rhwystrau hir-dymor i dwf wrth galon Cynllun Twf Gogledd Cymru.** Y prif heriau a chyfleodd i roi sylw iddynt yw:

- Gwella cynhyrchedd
- Cefnogi arloesedd ac Ymchwil a Datblygu
- Cefnogi'r agenda carbon isel a gyrru twf carbon isel
- Integreiddio'r gadwyn gyflenwi
- Cwrdd ag anghenion sgiliau
- Yr angen am ofod llawr cyflogaeth modern a thir preswyl wedi'i wasanaethu
- Ymdrin â'r rhaniad digidol
- Ymestyn y capasiti ymchwil digidol.

2.4 Mae'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau trawsffurfiol ar draws pum rhaglen (Ffigwr 1). Mae'r rhaglenni wedi'u diffinio fel naill ai rhaglenni gyrru mewn sectorau twf uchel neu raglenni hwyluso.

### Rhaglenni gyrru allweddol - gyrru cynhyrchedd yn y rhanbarth

2.5 Bydd y prosiectau o fewn y Cynllun Twf wedi'u hanelu at gynyddu gwerth ac effaith y sectorau twf uchel yn eistedd o fewn tair prif raglen:

- **Ynni carbon isel**
- **Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel**
- **Bwyd-amaeth a thwristiaeth**

**Rhaglenni galluogi - mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i hwyluso a chyflawni twf economaidd**


2.6 Rydym wedi adnabod sectorau hwyluso drwy'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd allweddol a rhoi sylw i faterion strwythurol sydd wedi cael effaith ar gynhyrchedd a swyddi. Bydd cyflawni yn y sectorau hyn yn creu'r amodau priodol i fusnesau fuddsoddi yn y rhanbarth ac i'r farchnad lafur gymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddwn yn defnyddio dulliau mwy strategol i'n buddsoddiadau, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu'n dda er mwyn hwyluso twf economaidd a thwf mewn cyflogaeth ledled y rhanbarth.

2.7 Mae'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol i dwf yn eistedd o fewn dwy raglen allweddol:

- **Tir ac Eiddo**
- **Digidol**

2.8 Mae'r ddwy raglen ychwanegol, Sgiliau a Chyflogaeth a Thrafnidiaeth Strategol yn eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf. Mae'r rhaglenni'n parhau'n allweddol i gyflawni'r weledigaeth ehangach ar gyfer y Gogledd. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a thrwy ei Is-fwrdd Trafnidiaeth i adnabod a sicrhau ffynonellau cyllid amgen i gyflawni'r rhaglenni hyn.

Ffigwr 1: Rhaglenni'r Cynllun Twf





2.9 Mae'r holl raglenni a'r prosiectau sydd o fewn iddynt yn cyfrannu at gyflawni'r tri amcan gwariant allweddol (a amlinellir ym mharagraff 2.2). Yn ogystal, maent yn cynhyrchu cyfres o fuddion sydd wedi cael eu dosbarthu fel buddion uniongyrchol, anuniongyrchol ac ehangach. (Wedi'i ddarlunio yn Ffigwr 2)

**2.10 Cynllun Twf Gogledd Cymru - Amcanion Gwariant**

| | |
|---|---|
| Amcan 1<br>**Swyddi** | Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net yn y Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |
| Amcan 2<br>**GVA** | Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |
| Amcan 3<br>**Buddsoddiad** | Cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |

Ffigwr 2. Fframwaith Buddion




Ffynhonnell: Hatch

## 3 CRYNODEB O'R GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL A GYFLAWNWYD

3.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r cerrig milltir allweddol a'r deilliannau sydd wedi'u cyflawni mewn trefn gronolegol o fis Ionawr 2020:

### Ionawr - Mawrth 2020

3.2 Sefydlwyd y Swyddfa Rhaglen, dan arweiniad Alwen Williams, y Cyfarwyddwr Rhaglen, ym mis Ionawr 2020. Ar y cyd ag Alwen Williams, ymunodd Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau; Henry Aron fel Rheolwr y Rhaglen Ynni Carbon Isel; a Stuart Whitfield fel Rheolwr y Rhaglen Ddigidol. Yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y tîm yn eu swyddi, fe wnaethant sefydlu'r Swyddfa Portffolio a'r prosesau gwaith cysylltiedig yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno.

3.3 Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cychwynnol gyda phartneriaid, yn cynnwys tîm rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn y Gogledd, swyddogion allweddol o Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Weinyddiaeth Tai, Cymuned a Llywodraeth Leol.

3.4 Ers 2019, arweiniodd y Grŵp Gweithredol ar ddatblygu cais i Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) dan Flaenoriaeth 5: Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio'n Rhanbarthol. Cyflwynwyd achos terfynol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Ionawr i sicrhau £5.8m, yn amlinellu cynlluniau i dyfu'r Swyddfa Rheoli Portffolio i 18 o swyddi llawn-amser i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf.

3.5 Ym mis Mawrth, daeth yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, David TC Davies AS, ynghyd â swyddogion Llywodraeth y DU i ymweld â ni yn y Gogledd, gan gyfarfod ag Arweinyddion, y Grŵp Cyflawni Busnes a Thîm y Swyddfa Rheoli Portffolio. Roedd yn gyfle i ni rannu rhai o'r manylion am ein rhaglenni a'n prosiectau yn gynnar yng nghyfnod y Gweinidog.

3.6 Mynychodd aelodau'r Tîm Rheoli Portffolio hyfforddiant sylfaenol Better Business Case Trysorlys EM yn ystod mis Mawrth i baratoi i ddwyn ynghyd achosion busnes y Cynllun Twf i'w cyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

3.7 Cynhaliodd y Swyddfa Rheoli Portffolio y cyntaf mewn cyfres o adolygiadau gwaelodlin prosiectau er mwyn sicrhau bod amlinelliad pob prosiect wedi'i ddilysu a/neu ei ddiweddaru ar y cyd ag arianwyr y prosiect. Roedd yr adolygiad cychwynnol yn galluogi i ni asesu pa mor aeddfed a pharod oedd y prosiect, adnabod risgiau a chyfleoedd allweddol a pharatoi adroddiad

o uchafbwyntiau i'r Bwrdd. Mae'r diweddaraf yn y gyfres hon o adroddiadau, a gyflwynwyd ar 5 Chwefror 2021, wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

## Ebrill - Mehefin 2020

3.8 Gyda'r cyfnod clod Covid-19 cyntaf yn ei le, parhaodd y Swyddfa Rheoli Portffolio â'i gwaith i adolygu ac asesu'r holl brosiectau yn nhermau pa mor barod oeddent a'r risgiau, ond gan hefyd gynnwys ystyriaeth o sut/os fyddai'r pandemig yn newid potensial buddsoddi pob prosiect ac ymwybyddiaeth o'r holl risgiau oedd ynghlwm.

3.9 Ymunodd aelod newydd o'r tîm ym mis Ebrill a chroesawodd y Swyddfa David Mathews i'r tîm, gan gychwyn yn ei rôl fel Rheolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo.

3.10 Ym mis Ebrill hefyd, dechreuwyd cynnal nifer o gyfarfodydd rhithiol yn cynnwys y Bwrdd Uchelgais a'r Grŵp Cyflawni Busnes.

3.11 Parhaodd hyfforddiant y Swyddfa Rheoli Portffolio ar Better Business Cases mewn dosbarth rhithiol ym mis Ebrill, gyda dau aelod pellach o dîm y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael eu hachredu'n llwyddiannus.

3.12 Ym mis Mai, derbyniwyd llythyr cynnig gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn cadarnhau bod cronfa o £5.8m wedi'i sicrhau i alluogi i'r tîm Rheoli Portffolio dyfu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf.

3.13 Gan ragweld canlyniad llwyddiannus i'r bid i WEFO, roedd gwaith wedi dechrau i sicrhau y byddai'r gwaith recriwtio yn medru cychwyn cyn gynted â phosib.

3.14 Ym mis Mehefin, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gadarnhau'r egwyddor o fabwysiadu dull rheoli rhaglenni a phrosiectau i gyflawni'r Cynllun Twf. Arweiniodd hyn at sefydlu 5 Bwrdd Rhaglen er mwyn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r rhaglenni'n weithredol. Penododd y Bwrdd Uwch Swyddog Cyfrifol a Dirprwy Uwch Swyddog Cyfrifol ynghyd ag Aelod Arweiniol i bob Rhaglen.

3.15 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Rhaglen Digidol ym mis Mehefin.

## Gorffennaf - Medi 2020

3.16 Fe wnaeth y Swyddfa Rheoli Portffolio fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu achosion busnes manwl ar gyfer pob rhaglen ynghyd ag achos busnes portffolio i gyflawni'r cynllun twf terfynol.

3.17 Fe wnaeth aelodau pellach o'r tîm gwblhau a phasio'r hyfforddiant 'Foundation Better Business Case'.

3.18 Gyda'r tîm yn canolbwyntio ar ddeall sut i gyflwyno'r achosion busnes gorau, bu'r tîm yn ffodus i allu mynychu 4 gweithdy gyda Joe Flanagan, cyd-awdur y Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM 'Better Business Case Guidance', er mwyn cael ei adborth a'i arweiniad ar ein rhaglenni, a dysgu sut i gyflwyno'r achosion busnes i'r Trysorlys a chael yr effaith gywir.

3.19 Yn ystod mis Gorffennaf, fe wnaeth y gweithdai achos busnes barhau, gyda Gweithdai Achos Dros Newid a Gweithdai Achos Economaidd ar gyfer pob un o'r rhaglenni, yn unol â chanllawiau arfer gorau ar gyfer Better Business Cases.

3.20 Yn ystod wythnos olaf mis Awst, cynhaliwyd Adolygiad Porth Portffolio Llywodraeth Cymru. Derbyniodd y Swyddfa Rheoli Portffolio adroddiad ac 11 argymhelliad i'w cyflawni.

3.21 Parhawyd i recriwtio ym mis Gorffennaf ac Awst er mwyn llenwi chwe swydd allweddol yn y Swyddfa Rheoli Portffolio.

3.22 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Rhaglen Ynni ym mis Medi.

## Hydref - Rhagfyr 2020

3.23 Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio lwyddiannus gyda'r swyddogion a ganlyn yn ymuno â'r tîm - Robyn Lovelock fel Rheolwr Rhaglen, Nia Medi Williams fel Rheolwr Gweithrediadau, Elgan Roberts fel Rheolwr Rhaglen Ynni, Erin Gwenlli Thomas fel Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac Angharad Evans fel Swyddog Cefnogi Rhaglen.

3.24 Ym mis Hydref, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Rhaglen Bwyd Amaeth a Thwristiaeth. Dilynwyd hyn gyda chyfarfod cyntaf y Bwrdd Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel yn ystod mis Tachwedd.

3.25 Yn ystod mis Tachwedd, cyflwynodd y Swyddfa Rheoli Portffolio mewn cynhadledd rithiol ar gyfer y Sector Preifat a drefnwyd gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy Roedd y gynhadledd yn canolbwyntio ar y rhaglenni Digidol, Tir ac Eiddo ac Ynni.

3.26 Yn ystod mis Rhagfyr, cynhaliwyd digwyddiad dathlu ar gyfer rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol (LFFN) ar-lein. Roedd yn gyfle gwych i ddefnyddwyr a buddiolwyr cysylltedd LFFN rannu eu profiad o'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud iddyn nhw.

3.27 Yn ystod yr hydref, roeddem yn canolbwyntio ar gyflawni'r Cytundeb Twf Terfynol. Dechreuodd y Broses gyda'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cadarnhau cyfres o ddogfennau'r cynllun twf terfynol, yn cynnwys Achos Busnes y Portffolio (Atodiad 2) a'r Cynllun Busnes Cyffredinol (Atodiad 3), ac wedi hynny cyflwynwyd ac argymhellwyd y dogfennau drwy broses neu fwrdd democrataidd bob partner.

3.28 Yn dilyn cadarnhad y Bwrdd Uchelgais, cyflwynwyd dogfennau'r cynllun twf terfynol, i Drysorlys Cymru ar gyfer Adolygiad y Swyddog Cyfrifo. Roedd hon yn broses bum wythnos gyda swyddogion yn adolygu ac yn craffu'r dogfennau.

3.29 Yna, cyflwynwyd dogfennau'r cynllun twf terfynol i'w cymeradwyo gan Gyd-fwrdd y Llywodraeth ar 9 Rhagfyr, ac wedi hynny cyflwynwyd cyngor a baratowyd am gymeradwyaeth Weinidogol.

3.30 Llofnodwyd y Cytundeb Twf Terfynol yn ystod seremoni rithiol ar 17 Rhagfyr 2021. Y Cynllun Twf Terfynol yw'r contract rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf ac fe'i sicrhawyd ar sail Achos Busnes y Portffolio a phum Achos Busnes Rhaglen er mwyn cadarnhau'r buddsoddiad o gyfanswm o £240m (£120m gan Lywodraeth y DU a £120m gan Llywodraeth Cymru).

3.31 Roedd angen dogfennaeth allweddol ychwanegol er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf, a datblygwyd y rhain i gyd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, yn cynnwys Cynllun Ariannol; Cynllun Gweithredu; Protocol Cyfathrebu; Cynllun Monitro a Gwerthuso; Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig.

3.32 Law yn llaw â'r Cynllun Twf Terfynol, mabwysiadodd y partneriaid Gytundeb Llywodraethu 2, sef y ddogfen sy'n cyfundrefnu perthynas ac ymrwymiad y partïon, ynghyd â'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ynghyd â sefydlu'r fframwaith llywodraethu cefnogol.

## Ionawr/Chwefror 2021

3.33 Yn ystod mis Ionawr 2021, cyhoeddodd y Swyddfa Rheoli Portffolio dri briff ar GwerthwchiGymru i gefnogi datblygu prosiectau yn ymwneud â'r prosiect Ynni Lleol Blaengar, y prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth a'r prosiect Fferm Sero Net Llysfasi.

3.34 Ym mis Ionawr, diweddarwyd yr Adolygiad Gwaelodlin i gadarnhau amserlen ar gyfer Achosion Busnes Amlinellol yn ystod blwyddyn galendr 2021. Mae'r amserlen ar gael yn 5.1.

3.35 Cyfarfu'r Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo am y tro cyntaf yn ystod mis Ionawr.

3.36 Croesawodd y Swyddfa Rheoli Portffolio Kirrie Moore i'r tîm ym mis Ionawr fel Rheolwr Prosiect Digidol.

## Gweithio gyda'r Sector Preifat 2020/2021

3.37 Mae'r Grŵp Cyflawni Busnes yn is-grŵp o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r grŵp yn darparu cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd annibynnol i'r Bwrdd Uchelgais, ynghyd â gweithio ar y cyd â'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gyflawni'r Cynllun Twf. Mae'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi derbyn cyfres o gyflwyniadau gan bob un o brosiectau a rhaglenni'r Cynllun Twf, gan ddarparu her ac adborth i'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

3.38 Yn ystod y flwyddyn ac i barhau â’r gwaith a ddechreuwyd yn 2019, mae'r Grŵp Cyflawni Busnes wedi derbyn cyfres o gyflwyniadau gan bob un o brosiectau'r Cynllun Twf, ac roedd y broses yn werthfawr i dderbyn adborth a her ar y prosiectau.

3.39 Askar Sheibani yw Cadeirydd Interim y Grŵp Cyflawni Busnes, a adwaenir bellach fel y Bwrdd Cyflawni Busnes, yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2, ac yn dilyn llofnodi'r cytundeb twf terfynol. Mae gwaith ar y gweill, gydag Askar ac aelodau'r bwrdd, i recriwtio aelodau newydd i'r bwrdd ac i gryfhau'n bellach y bartneriaeth gyda'r sector preifat yn ystod y flwyddyn i ddod. Pan fydd aelodaeth y bwrdd wedi'i chwblhau, bydd yr aelodau, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bwrdd Uchelgais a'r Cyfarwyddwr Portffolio, yn ethol Cadeirydd, fydd yn gwasanaethu am gyfnod o 2 flynedd.

### Dywed Askar Sheibani, Comtek Network Systems a Chadeirydd Interim y Bwrdd Cyflawni Busnes



**Askar Sheibani,**
Cadeirydd | Chair,
Grŵp Cyflawni Busnes | Business Delivery Group

*"Mae gan Ogledd Cymru gynghrair unigryw a phwerus o arweinyddion sector preifat a chyhoeddus sydd wedi bod yn gweithio fel partneriaid unedig, drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Grŵp Cyflawni Busnes, i sicrhau bod y Cynllun Twf yn denu enillion sylweddol ar fuddsoddiadau.*

*Mae gan aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes, sy'n entrepreneuriaid yn bennaf sydd â hanes blaenorol sefydledig o fewn eu sectorau a'u diwydiannau a gydnabyddir yn rhyngwladol, lais annibynnol. Mae gan yr aelodau rwydweithiau busnes dylanwadol a helaeth yng Nghymru, y DU a'r tu hwnt ac yn bwysig iawn, maent yn angerddol iawn dros y Gogledd, sy'n gartref i'r rhan fwyaf ohonynt.*

*Tua'r Dwyrain, rydym yn ffodus i fod wedi'n lleoli yn agos ar ddwy ddinas fawr; Lerpwl a Manceinion, sy'n gartrefi i ddau faes awyr rhyngwladol i'n cysylltu ni â'r farchnad fyd-eang, tra bod Llundain ryw ddwy awr i ffwrdd ar y trên. Tua'r Gorllewin, mae porthladd Caergybi yn hwyluso ein masnach drwy gludo nwyddau ar y môr ac mae'n agor y llwybr at dwristiaeth rhyngwladol ac Iwerddon. Mae gan bob modfedd o'r Gogledd hanes ardderchog, diwylliant cyfoethog, cestyll a thraethau gwych, atyniadau twristiaeth unigryw, bywyd gwyllt rhyfeddol ac, heb os, y tirweddau naturiol gorau ar y Ddaear.*

*Mae rhaglenni'r Cynllun Twf yn canolbwyntio ar feysydd o'r economi lle mae gennym brofiad hirhoedlog ac arbenigedd cryf; megis Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni Adnewyddadwy a Thwristiaeth. Er enghraifft, mae gan y prosiect pŵer llanw ar Ynys Môn, Morlais, y potensial i wneud Gogledd Cymru yn un o arweinwyr y byd mewn ynni llanw. Ychydig iawn o lefydd yn y byd sy'n addas a gallai'r buddsoddiad olygu bod Gogledd Cymru yn un o'r tri chynhyrchwr pŵer llanw mwyaf yn y byd.*

*Hefyd, mae'r Cynllun Twf yn buddsoddi yn isadeiledd digidol y rhanbarth. Mae hyn yn hanfodol ac mae'n tanategu twf economaidd. Mae band eang ffibr cyflymder uchel dibynadwy a hygyrch a gallu 5G ledled y Gogledd yn hanfodol.*

*Drwy gydol hanes, mae'r Gogledd wedi dangos ei wytnwch i frwydro yn erbyn yr holl newidiadau economaidd blaenorol ac wedi dod drwyddynt yn gryfach. Mae'r pandemig diweddar hwn wedi achosi daeargryn cymdeithasol ac economaidd dinistriol.*

*Gyda chynllun economaidd credadwy, buddsoddiad mewn sgiliau ac addysg a chydag arweinyddiaeth leol benderfynol sydd yn derbyn adnoddau digonol, credaf yn gryf fod gan y Gogledd gyfle gwych a'r potensial i ailsefydlu ei hun fel economi pwerus yng Nghymru, a fydd yn cael ei gefnogi'n fawr gan fuddsoddiad y Cynllun Twf dros y pymtheg mlynedd nesaf a'r tu hwnt."*

3.40 Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy wedi bod yn cynrychioli'r sector preifat yn gryf iawn ac, fel un o sylfaenwyr y Bwrdd Uchelgais, maen nhw wedi gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus i ffurfio a dylanwadu ar gynnig y Cynllun Twf. Fel cynrychiolydd sefydliadau eraill gan gynnwys y Siambr Fasnach, y CBI a'r FSB, mae eu hymrwymiad gweithredol wrth ffurfio'r cynllun twf wedi bod yn amhrisiadwy. Ers 3 Awst 2020, yn sgil herio a achoswyd gan Covid-19, mae'r Cyngor Busnes wedi tynnu eu haelodaeth yn ôl. Mae'r Cyngor Busnes yn parhau'n rhanddeiliad allweddol a byddant yn bartner hanfodol, yn fwy strategol ac yn llai gweithredol, wrth symud ymlaen.

**Dyfyniad gan Jim Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Twristiaeth Gogledd Cymru a Chadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy ac Ashley Rogers, Cyfarwyddwr Masnachol, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy**

*"Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn becyn hollbwysig o fuddsoddiadau cyfalaf i'n rhanbarth a fydd yn hwb sylweddol i economi'r Gogledd ar adeg pan fo newidiadau mawr yn y farchnad megis Brexit a digwyddiadau byd-eang yn cynnwys pandemig Covid-19, yn parhau i effeithio ar ein Cymunedau a'n Heconomi. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, fel y corff ymbarél rhanbarthol ar gyfer y sector preifat yn y Gogledd, wedi gweithio'n galed iawn mewn partneriaeth â'r Bwrdd Uchelgais ers cychwyn datblygu'r Cynllun Twf, i sicrhau bod y buddsoddiadau a gynigir yn y Cynllun yn cael eu dosbarthu ledled y rhanbarth a'n sectorau er mwyn rhoi'r budd mwyaf i'n busnesau.*

*Mae gan Gynllun Twf sy'n cyflawni ar gefnogi busnesau a thwf cynhyrched ar gyfer ein busnesau bach a chanolig brodorol a'r busnesau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn y Gogledd yn ei sectorau allweddol e.e. Gweithgynhyrchu, Twristiaeth a Lletygarwch, Amaeth ac Ynni, botensial i gael effaith gadarnhaol unwaith mewn oes arnom i gyd. Mae hi'n hanfodol, serch hynny, bod y prosiectau a'r rhaglenni arfaethedig nid yn unig yn gatalyddion twf ond hefyd bod iddynt y credo sylfaenol eu bod yn gwneud hynny gan gyfrannu at siwrne'r rhanbarth tuag at economi Cylchol a Dim Carbon Net. Edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu'n ystyrlon â'r Bwrdd Uchelgais ar y pecyn buddsoddi allweddol hwn*



**Jim Jones,**
Cadeirydd | Chair,
Cyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy |
North Wales Mersey Dee Business Council



**Ashley Rogers,**
Cyfarwyddwr Masnachol | Commercial Director,
Cyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy |
North Wales Mersey Dee Business Council

# 4 BLAENORIAETHAU A'R GWAITH SYDD AR Y GWEILL

4.1 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi penodi Tinint fel partner digidol i ddiwygio ei chynnwys digidol a'i brand ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf. Bydd edrychiad a theimlad newydd yn symbol o'r trawsnewid i gyflawni'r rhaglenni. Gyda gwaith eisoes ar y gweill, bydd y brand newydd a'r wefan yn cael eu lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

4.2 Ym mis Ionawr 2020, cytunodd y Grŵp Gweithredol i ddiffinio sut bydd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais a phartneriaid eraill fel sydd angen, yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu ac yna chyflawni yn erbyn un Fframwaith Economaidd Rhanbarthol cyffredin i Ogledd Cymru. Oherwydd COVID-19, mae'r gwaith hwn wedi'i oedi. Mae'r Grŵp Adferiad Economaidd bellach wedi comisiynu Grŵp craidd i arwain ar y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn ystod 2021.

4.3 Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ar y Llythyr Cynnig Grant a'r Cytundeb Telerau Cyffredin er mwyn caniatáu i'r taliad cyntaf gael ei dynnu i lawr cyn diwedd mis Mawrth 2021.

4.4 Mae gwaith ar y gweill, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, i ddylunio a datblygu Prosbectws Buddsoddi ar gyfer y Gogledd. Pamffled digidol fydd hwn, sy'n amlygu'r hanfodion a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer Buddsoddi ledled y rhanbarth o fewn a'r tu hwnt i'r Cynllun Twf.


4.5 Mae ymgyrch recriwtio ar waith i benodi'r wyth swydd olaf yn y Swyddfa Rheoli Portffolio. Ein nod yw cael tîm llawn yn ei le erbyn gwanwyn 2021. Mae cyfnod ariannu’r ESF yn rhedeg tan ddiwedd mis Mehefin 2023.

4.6 Mae cynnydd yn cael ei wneud gyda datblygu prosiectau'r Cynllun Twf. Mae Adolygiadau Porth Llywodraeth Cymru wedi'u trefnu ar gyfer y tri phrosiect cyntaf - Morlais (Chwefror), Peirianneg Menter ac Opteg (Mawrth) a Chanolbwynt Economi Gwledig Glynllifon (Ebrill). Rhagwelir y bydd Achosion Busnes Amlinellol y prosiect cyntaf yn cael eu cyflwyno i’r Bwrdd Uchelgais ym mis Mai a mis Mehefin 2021. (Gweler 5.1)


4.7 Bydd y tîm yn parhau i weithio drwy'r naw argymhelliad a ddaeth o Adolygiad y Swyddogion Cyfrifo. Mae'r argymhellion ar gael ar dudalennau 5 a 6 Atodiad 2.

# 5 MAP TRYWYDD AR GYFER DATBLYGU A CHYFLAWNI ACHOSION BUSNES Y PROSIECTAU

5.1 Wedi'i amlinellu isod y mae piblinell OBC prosiectau ar gyfer 2021:




5.2 Wedi'i amlinellu isod y mae cynllun Cyflawni'r Rhaglenni:



# 6 PRIF RISGIAU A MATERION

6.1 Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o risgiau a materion allweddol a'i gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais ar 5 Chwefror 2021. Cyfeiriwch at Atodiad 2.

# 7 ADFER AR ÔL COVID-19

7.1 Mae Covid-19 wedi cael effaith economaidd syfrdanol ar y Gogledd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi. Nid yw'n hysbys eto beth yw effeithiau tymor hwy Covid-19 ar yr economi rhanbarthol.

7.2 Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, hir-dymor sy'n atal twf economaidd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol yn y byr-dymor y bydd angen amrediad o gamau gweithredu er mwyn hwyluso adferiad ac mae sicrhau bod y mesurau byr-dymor hynny'n cyd-fynd â'r Cynllun Twf yn allweddol.

7.3 Ni all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu economi'r Gogledd, yn enwedig yng ngoleuni COVID-19. Fodd bynnag, bydd y chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i economi'r Gogledd o du'r Cynllun Twf yn hwb arwyddocaol i'r sectorau adeiladu a chysylltiedig a hynny ar adeg pan mae'n debygol y bydd capasiti dros ben yn yr economi.

7.4 Fel ymateb i COVID-19, mae'r tîm wedi sefydlu grŵp ymateb tactegol i asesu'r effeithiau a ddaw yn sgil COVID-19 ar fusnesau a chytuno ar gamau allweddol sydd eu hangen i roi sylw i'r rhain. Bu'r Grŵp yn cyfarfod yn wythnosol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol, WLGA, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy.

7.5 Ddechrau mis Mai, fe wnaethom ryddhau erthygl yn y wasg ar y cyd i amlygu'r cydweithio sy'n digwydd ledled y Gogledd a rhwng y Bwrdd Uchelgais, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a'r DWP i helpu i greu'r cysylltiadau rhwng ceiswyr swyddi a'r swyddi gwag sydd ar gael yn y rhanbarth.

7.6 Yn ystod mis Mai, fe wnaethom gynnal gweminar i fusnesau a wnaeth ddenu dros gant a hanner o gyfranogwyr gan roi cyfle i fusnesau sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig i ofyn eu cwestiynau yn uniongyrchol i'r Gweinidog BEIS - Nadhim Zahawi, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru - David T.C. Davies, a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru - Ken Skates. Atebwyd nifer o gwestiynau yn ystod y sesiwn awr o hyd a derbyniodd yr holl gwestiynau eraill atebion ysgrifenedig yn dilyn yr alwad. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn gyda nifer o fusnesau yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r dull cydweithredol gan y ddwy Lywodraeth.

7.7 Sefydlwyd Grŵp Adfer Economaidd Rhanbarthol i weithio ar y cyd ar adfer yr economi.

7.8 Dros yr haf, comisiynwyd yr arolwg o effaith ar fusnesau. Derbyniodd yr arolwg dros 1,800 o ymatebion gan ddarparu dadansoddiad o ddata yn ôl i lefel awdurdod lleol ac ar draws diwydiannau a sectorau.

7.9 Ar y cyd, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar effaith Covid-19 ar economi'r Gogledd. Mae bwriad i'r gwaith ymchwil, a gwblhawyd gan Hatch Regeneris, gael ei gyflwyno mewn sesiwn strategol gydag aelodau'r Bwrdd Uchelgais ar 25 Chwefror.

# 8 CASGLIADAU

8.1 Bwriad yr adroddiad hwn yw dangos y cynnydd a'r momentwm yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ble mae gogledd Cymru wedi mynd i gytundeb hanesyddol gyda'r ddwy Lywodraeth.

8.2 Mae'r adroddiad yn grynodeb o'r gweithgarwch yn ogystal â manylion a gwybodaeth gefnogol yn yr Atodiadau.

8.3 Byddwn yn hapus i ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor yn y sesiwn ar 3 Mawrth.

# 9 ATODIADAU

## Atodiad 1 - Ffeithluniau'r Rhaglenni

### RHAGLEN BWYD AMAETH A THWRISTIAETH

**AMCAN**

Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd.

**PROSIECTAU**

- Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon
- Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi
- Rhwydwaith TALENT Twristiaeth

**BUDDSODDIAD**

Buddsoddiad Cynllun Twf: £24.5m
Buddsoddiad Sector Breifat: £4.4m
Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: £12.4m
**Cyfanswm: £41.3m**

**MANTEISION**

- Creu hyd at 380 o swyddi erbyn 2036
- Cynyddu GVA hyd at £281 miliwn
- Cefnogi hyd at 400 o fusnesau gyda llwybrau datgarboneiddio ac arallgyfeirio
- Gyrru arloesedd drwy hyd at 6,000m o le ar gyfer hyfforddiant
- Uwchsgilio hyd at 2,500 o bobl/busnesau
- Cryfhau cadwyni lleol

### AGRIFOOD AND TOURISM PROGRAMME

**AIM**

The aim of the Agri-food and Tourism Programme is to build a more sustainable, vibrant and resilient foundation economy within the region, optimising opportunities for employment and prosperity through our environment and landscape.

**PROJECTS**

- Glynllifon Rural Economy Hub
- Llysfasi Carbon Neutral Centre
- Tourism TALENT Network

**INVESTMENT**

Growth Deal Investment: £24.5m
Private Sector Investment: £4.4m
Public Sector Investment: £12.4m
**Total Investment: £41.3m**

**SPENDING OBJECTIVES**

- Create up to 380 jobs by 2036
- Increase GVA by £ 281 million
- Support up to 400 businesses with decarbonisation and diversification pathways
- Drive innovation through up to 6,000m space for training
- Upskill up to 2,500 people/businesses
- Strengthen local supply chains

### RHAGLEN DIGIDOL

**AMCAN**

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall y Gogledd gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. Chwarae rôl hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill i gyflawni'r budd mwyaf bosib.

**PROSIECTAU**

- Campws Cysylltiedig
- Canolfan Prosesu Signal Ddigidol
- Coridor Cysylltiedig
- Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf
- Ffibr Llawn i safleoedd allweddol

**BUDDSODDIAD**

Buddsoddiad Cynllun Twf: £37m
Buddsoddiad Sector Breifat: £1.6m
Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: £3.1m
**Cyfanswm: £41.7m**

**MANTEISION**

- Creu hyd at 380 o swyddi erbyn 2036
- Cynyddu GVA hyd at £158 miliwn
- Cyflwyno marchnad cysylltedd gadarn a chystadleuol mewn 28 safle strategol
- Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ogwmpas y prif rwydweithiau trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru
- Sicrhau bod gan yr holl eiddo preswyl yn y rhanbarth gysylltedd band eang cyflym iawn erbyn 2023

### DIGITAL PROGRAMME

**AIM**

Deliver the step change in digital connectivity needed to ensure North Wales is able to satisfy user demand, maintain pace with the rest of UK, unlock the growth potential of priority sectors and sites and underpin a flourishing innovation ecosystem.

**PROJECTS**

- Connected Campuses
- Digital Signal Processing Centre
- Connected Corridors
- Last few %
- Full Fibre at key sites

**INVESTMENT**

Growth Deal Investment: £37m
Private Sector Investment: £1.6m
Public Sector Investment: £3.1m
**Total Investment: £41.7m**

**SPENDING OBJECTIVES**

- Create up to 380 jobs by 2036
- Increase GVA by £158 million
- Introduce competitive connectivity to 28 key sites
- Distrbute high bandwith and digital connectivity around transport networks in North Wales
- Ensure all premises in the region has access to superfast broadband the region has superfast broadband by 2023

## RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

### AMCAN
Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

### PROSIECTAU
- Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel
- Datgarboneiddio Trafnidiaeth
- Morlais
- Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
- Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar

### BUDDSODDIAD
Buddsoddiad Cynllun Twf: £86.4m
Buddsoddiad Sector Breifat: £441.7m
Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: £140.4m
**Cyfanswm: £668.5m**

### MANTEISION
- Creu hyd at 980 o swyddi erbyn 2036
- Cynyddu GVA hyd at £530 miliwn
- Cynhyrchu 314MW o Ynni Carbon Isel newydd
- Arbed 2723 tunnell o CO2e (carbon)

## LOW CARBON ENERGY PROGRAMME

### AIM
To unlock the economic benefits of transformational low carbon energy projects and position North Wales as a leading UK location for low carbon energy generation, innovation and supply chain investment.

### PROJECTS
- Local Carbon Energy Centre of Excellence
- Transport Decarbonisation
- Morlais
- Trawsfynydd Power Station
- Smart Local Energy

### INVESTMENT
Growth Deal Investment: £86.4m
Private Sector Investment: £441.7m
Public Sector Investment: £140.4m
**Total Investment: £668.5m**

### SPENDING OBJECTIVES
- Create up to 980 jobs by 2036
- Increase GVA by £530 million
- Enable deployment of at least 314MW new installed low carbon energy generation
- Enable carbon savings of at least 2723 tonnes CO2e

## RHAGLEN TIR AC EIDDO

### AMCAN
Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai a chyflawni gwelliannau a fydd yn sbarduno buddsoddiad ym Mhorthladd Caergybi a'r rhanbarth ehangach. Bydd gan y prosiectau hyn rôl hwyluso ar gyfer y rhaglenni eraill drwy sicrhau bod safleoedd wedi'u gwasanaethu ar gael i fuddsoddwyr a datblygwyr.

### PROSIECTAU
- Porthladd Caergybi
- Porth Wrecsam
- Safle Strategol Bodelwyddan
- Safle Strategol Bryn Cegin
- Safle Ysbyty Dinbych
- Warren Hall, Brychdyn

### BUDDSODDIAD
Buddsoddiad Cynllun Twf: £79.1m
Buddsoddiad Sector Breifat: £274.4m
Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: £1.9m
**Cyfanswm: £355.4m**

### MANTEISION
- Creu hyd at 2,280 o swyddi erbyn 2036
- Cynyddu GVA hyd at £1.29 biliwn
- Darparu 30ha ac 20,000 metr sgwâr o dir cyflogaeth ac adeiladau
- Darparu 1,000 a mwy o leiniau datblygu preswyl â gwasanaeth

## LAND AND PROPERTY PROGRAMME

### AIM
To address the shortage of suitable land and properties for business growth and to bring forward sites for housing development. To deliver improvements that stimulate investment in sites and presmises in the Port of Holyhead and the wider region. Enables other Programmes by ensuring the right land and property infastructure is available.

### PROJECTS
- Holyhead Gateway
- Western Gateway, Wrexham
- Key Strategic Site, Bodelwyddan
- Bryn Cegin Strategic Site
- Former North Wales Hospital, Denbigh
- Warren Hall, Broughton

### INVESTMENT
Growth Deal Investment: £79.1m
Private Sector Investment: £274.4m
Public Sector Investment: £1.9m
**Total Investment: £355.4m**

### SPENDING OBJECTIVES
- Create up to 2,280 jobs by 2036
- Increase GVA by £1.29 billion
- To deliver 30ha and 20,000 sq m of employment land and premises
- Deliver 1,000 plus serviced residential development plots




### Atodiad 2 - Adroddiad Uchafbwyntiau'r Portffolio

Cyflwynwyd Adroddiad Uchafbwyntiau'r Portffolio i'r Bwrdd Uchelgais ar 5 Chwefror 2021.

Mae Adroddiad Uchafbwyntiau'r Portffolio yn darparu diweddariad ar y cynnydd ers llofnodi'r Cynllun Twf, trosolwg o sefyllfa gyfredol pob rhaglen a phrosiect o fewn y cynllun a diweddariad i'r amserlen gyflawni.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar yr amserlen i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ystyried yr Achosion Busnes Amlinellol.

Mae'n ofynnol fod y Bwrdd Uchelgais yn ystyried Adroddiad Uchafbwyntiau'r Portffolio ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn medru derbyn y taliad cyntaf o'r arian.

I'r dyfodol, bydd adroddiadau ar gynnydd y Cynllun Twf ar ffurf adroddiad chwarterol ffurfiol. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cyfeirio at Chwarter 4 2020-21.

[Adroddiad Uchafbwyntiau Portffolio Gogledd Cymru]

### Atodiad 3 - Achos Busnes y Portffolio

Cadarnhawyd sicrwydd Achos Busnes y Portffolio cyn cyflawni'r Cytundeb Twf Terfynol, trwy broses Adolygiad Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru.

[Achos Busnes y Portffolio]

### Atodiad 4 - Cynllun Busnes Cyffredinol

Cefnogwyd y Cynllun Busnes Cyffredinol gan holl bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fel rhan o'r broses o gyflawni'r Cytundeb Twf Terfynol.

[Cynllun Busnes Cyffredinol]